

‘Dyma fi yn eich anfon allan...’

Crynodeb o araith y Parch Eric Jones, Llywydd Sasiwn y Gogledd yng ngwasanaeth ordeinio y Parchedig Anna Jane Evans yn Lerpwl ar Ebrill 17eg

Anfonwyd llun i'r Goleud flynyddoedd lawer yn ôl o bedwar gweinidog o Fangor, a minnau yn un ohonynt, yn sefyll o dan arwydd yn Sŵ Caer gyda'r geiriau *Rare Breeds* uwch ein pennau! Croesewir Anna Jane Evans at y *Very Rare Breeds*, oherwydd ychydig iawn o weinidogion gwirfoddol yr ydym yn eu hadnabod o fewn y Cyfundeb.

Trown at Efengyl Mathew 10:16 i glywed geiriau'r Arglwydd Iesu wrth y deuddeg oedd yn cychwyn ar eu cenhadaeth. Dyma eiriau o'i gomisiwn iddynt, sydd hefyd yn berthnasol i bawb ohonom.

Dyma fi yn eich anfon allan, cofiwn mai Ef sydd yn ein hanfon allan; nid 'Gamekeepers mewn aquarium' ydym ni i fod. Na. Ond anfonir ni allan fel **defaid i blith bleiddiaid**.

Clywais y Canon Andrew White, ficer Bagdad yn dweud fod bron pob un a feddyddiwyd ganddo, yn eglwys St. George, wedi eu llofruddio gan Fwsleniaid eithafol. Mae bleiddiaid felly i'w cael o hyd. Yn nes adref mae'r Hiwmanistiaid yn ceisio dylanwadu ar ein plant trwy ymuno â SACRE, y corff



Parch Eric Jones, Cyn-lywydd y Gymdeithasfa yn y Gogledd

ymgyngorol ar Addysg Grefyddol. Mae'r Secwlarïaidd yn ceisio dylanwadu ar y Gwasanaeth Iechyd i wrthod cyflogi caplaniaid, ac maent yn ceisio diddymu gwasanaethau boreol o'r ysgolion. Yn Llundain bu'r Atheistiaid Newydd yn gosod posterï ar fysiau yn honni, 'God probably doesn't exist, so enjoy yourselves.'

Eleni yn unig, mewn rhyw 15 wythnos, lladdwyd bron i hanner cant o bobl ifanc ar strydoedd Llundain, y nifer uchaf erioed, ac yn fwy hyd yn oed nag yn Efrog Newydd.

Daw geiriau y diweddar Archesgob Donald Coggan i'm meddwl '**God-less, hopeless.**' Mae yna fleiddiaid yng ngwisg defaid hefyd, ac maen nhw'n ddigon amlwg mewn byd ac eglwys. Byddwn ar ein gwyliadwriaeth.

Diolch am gael ordeinio bugail newydd goleuedig a fydd yn gymorth i gadw'r bleiddiaid rheibus draw o'n corlannau.

Felly byddwch yn gall fel seirff...

Pam bod Iesu Grist yn galw'r sarff yn anifail call? Mae bob amser yn ddigon call i ymateb neu i ymosod os oes gelyn yn ei herlid. Enw gwyh ar y mudiad cenhadol ers talwm oedd y Symudiad Ymosodol. Ymosodwn ninnau ar ambell elyn, megis *Enwadaeth di-ystyr*. Diolch am eglwys gyd-enwadol Llandudno, sydd gyda 50 o blant bellach yn ei

(parhad ar dudalen 2)

DAU DÂN

Wedi mwynhau cyfraniadau Llywydd y Gymanfa Gyffredinol a Llywyddion y Gymdeithasfa yn y Gogledd a'r Gymdeithasfa yn y De cawn gyfle i gloi'r gyfres fer hon ar Iesu a'r Pasg yng nghwmni'r Parch Jenny Garrard, cyn lywydd (erbyn hyn,) y Gymdeithasfa yn y Dwyrain.

Gwyddom oll, mae'n siŵr, am y profiad o eistedd oddi amgylch i danllwyth o dân neu o gwmpas coelcerth enfawr yn gwyllo'r fflamau'n dawnsio. Gwyddom oll am y profiad o hel meddyliau wrth wyllo'r pentwynion yn cochi a llosgi. Weithiau cofiwn am y bobl oedd yn eistedd gyda ni ger y tân yn y gorfennol. Neu efallai yng ngwres y fflamau dechreuwn freuddwydio am gynlluniau'n dyfodol.

Mae Hanes y Pasg yn cynnwys dwy olygfa debyg – un ochr i'r Pasg.

Y cwestiwn a erys i ni yw hyn: 'wrth ba goelcerth safwn ni?'

Yn yr olygfa gyntaf gwelwn Pedr yn cynhesu'i hun wrth y tân. Mae'n sefyll yng nghyntedd tŷ'r Archoffeiriad. Ac yno fe glywodd ei lais ei hun yn gwadu deirgwaith nad oedd yn



adnabod, ac nad oedd erioed wedi adnabod Iesu. Fe fyddaf yn meddwl wrthyf fy hun weithiau; a oedd Pedr y teimlo'n waeth amdano'i hun gyda phob gwadiad? Roedd gwadu Iesu'n ddigon gwael heb i'r ceiliog ganu a'i atgoffa bod Iesu wedi rhagfynegi hyn. Ac yna, i wneud pethau'n waeth, trodd Iesu i edrych arno. A rhuthrodd Pedr allan i'r tywyllwch i wyllo'n chwerw, mewn cywilydd ac mewn anobaith.

(parhad ar dudalen 2)

Crynodeb o araith Llywydd Sasiwn y Gogledd (parhad)

hysgol Sul. Buont yn ddigon call a sydyn yno i ymosod ar hen broblem anodd. Ymosodwn ar elyn arall hefyd, *Capelyddiaeth di-angen*. Yn Arfon gostyngwyd nifer ein capeli o rhyw 65 chwarter canrif yn ôl i rhyw 25 erbyn hyn Ond y mae angen strategaeth ysbrydol rymus i ddiogelu'r eglwysi sydd ar ôl. Diolch am ein *Cenhadaeth dros ein cyd-ddyn hefyd*, a'n hymgais i ymosod ar hen elynion megis anghyfiawnder a thlodi. Gadewch i ni fod yn falch o ymdrech *Corwynt Cariad* y llynedd a gododd tua £160,000 yn enw Cymorth Cristnogol. Yng Ngogledd Cymru y mae ac Alcohol Concern bellach yn ymosod ar hen elynion eraill, sef alcohol a chyffuriau. Ni fyddai yn bod oni bai am waith diflino rhai fel y diweddar Barchedig E R Lloyd Jones, gweinidog o'r Sasiwn hon. Byddwn fel seirff sy'n ddigon sydyn a chall i ymosod ar ambell elyn cyn iddo ymosod arnom ni, a'n lladd ni.

ac yn ddiniwed fel colomennod.

Gwyddom y gall colomennod adael eu hól ar ambell lain o lysiau mewn gardd, ond ni wnant byth ymosod ar unrhyw



Parch Anna Jane Evans

greadur. Mor hardd ydyn nhw yn eu plu llwyd a gwyn. Does ryfedd bod y Testament Newydd yn eu defnyddio fel symbol o Ysbryd Glân Duw, ac felly cawn ein hannog i fod fel hwy, (yn ddiniwed ond nid yn wirion ychwaith). Boed i ddaioni harddu ein bywydau, wrth i ninnau geisio bod yn Grist – debyg. Rhyddhawyd y deuddeg disgybl o'r carchar un tro, am nad oeddynt wedi gwneud unrhyw ddrwg, pan welwyd bod

eu bwriadau'n ddyrchafol a llesol. Cofiw'n eiriau awdur y llythyr at yr Hebreaid (12:14)

'Ceisiwch heddwch â phawb, a'r bywyd sanctaidd hwnnw nad oes modd i neb weld yr Arglwydd hebdo.'

Rhai felly oedd Ffransis o Assisi a'r Fam Teresa a miloedd o Gristnogion tebyg.

Y mae comisiwn cyntaf yr Arglwydd Iesu yn nyddiau ei gnawd yn tanlinellu natur ein gweinidogaeth, a daw'r ail gomisiwn gan y Crist atgyfodedig, yn her pellach i bawb ohonom:

'Rhoddwyd imi, meddai, bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear. Ewch gan hynny a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a roddais ichwi. Ac yn awr yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' (Math 28:16-20)

Comisiwn i ufuddhau iddo yw hwn, ac mae'n gysur mawr i'r gweindiog newydd ordeiniedig, ac i bawb ohonom, nad oes disgwyl i ni wneud ein gwaith yn ein nerth ein hunain. Amen.

DAU DÂN (parhad)

Ymhen ychydig o amser mae'r ddau brif gymeriad, Iesu a Phedr, yn cyfarfod â'i gilydd drachefn, o gwmpas tanllwyth o dân- y tro hwn ar draeth ar lan Môr Galilea Roedd llawer wedi digwydd ers y cyfarfod cyntaf hwnnw o amgylch y tân. Ac roedd Pedr yn dal i frwydro i geisio deall beth oedd arwyddocâd yr hyn oedd wedi digwydd – croes Calfaría, atgyfodiad Iesu, y troeon yr oedd wedi ymddangos i'w ddisgyblion.... Beth tybed oedd ystyr hyn oll i gyd? A beth olygai'r digwyddiadau yma i'r disgyblion a'u cynlluniau i'r dyfodol? Beth ddylen nhw ei wneud?

Felly, fe wnaethant yr hyn yr oedden nhw'n gyfarwydd ag o. Fe aethon nhw i gyd i bysgota! A noson aflwyddiannus o bysgota oedd hi hyd nes i lais o'r lan alw arnynt a dweud wrthynt am ailgyfeirio eu rhwydau. Awgrymodd Eddie Askew bod y rhwydau gwag yn ddarlun o wacter digyfeiriad eu bywydau. Yna yn sydyn, dacw un o'r disgyblion yn adnabod Iesu, a neidiodd Pedr i'r dŵr gan nofio tua'r lan.

A dyma Pedr yn gweld Iesu yn sefyll wrth y tân yn edrych arno. Fe wyddom ni i gyd am y teimlad ofnadwy hwnnw lle 'rydym yn wynebu rhyw amgylchiad neu sgwrs anodd a meddwl 'be ddaw o'r cyfarfod hwn tybed?'

Sut fyddai Iesu'n ymateb i Pedr y tro hwn tybed?

Mor wahanol oedd y cyfarfyddiad hwn i'r

adeg honno yng nghyntedd llys yr Archoffeiriad – dim condemniad, dim ond derbyniad. Roedd Pedr wedi gwadu Iesu deirgwaith. Yn awr cafodd gyfle deirgwaith i gadarnhau y byddai'n ymrwymo i barhau gyda gwaith Crist. 'Pedr wyt ti'n fy ngharu i? Os wyt ti, portha fy nefaid.'

Beth oedd i gyfrif am y gwahaniaeth rhwng y ddau gyfarfod?

Yn syml beth oedd wedi digwydd rhwng y ddau gyfarfod! Sef, y Pasg – y waredigaeth a gyflawnodd Crist trosom, y maddeuant a enillodd i ni, a'r bywyd a'r dyfodol gobeithiol hwnnw y mae ei bresenoldeb atgyfodedig yn ei roi i ni.

Felly, gerllaw i ba goelcerth ydym ni yn sefyll heddiw? Neu o'i roi mewn ffordd arall, ar ba ochr i'r Pasg ydyn ni'n sefyll?

Mae llawer iawn o Gristnogion, mae gormod o lawer o'n heglwysi yn parhau i fyw ar yr ochr anghywir i'r Pasg. Maen nhw'n byw gydag euogrwydd sy'n eu parlysu am fethiannau'r gorffennol yn lle'r maddeuant hwnnw sy'n ein rhyddhau, sy'n ein codi ar ein traed, sy'n ein galluogi i gychwyn o'r newydd. Maen nhw'n byw gydag ofnau ac amheuan am allu Duw i ddod â bywyd allan o farwolaeth, ac mae hyn yn eu rhwystro rhag camu allan yn hyderus, i frwr mlaen gyda'r gwaith sydd angen ei gyflawni heddiw.

Maen nhw'n edrych yn ôl ar yr hyn a fu ac yn methu'r cyfle i gwrdd â'r Arglwydd Iesu sy'n ein cyfarfod lle yr ydym, heddiw.

UNDEB ATHROFA'R BALA

Cynhelir

Y GYNHADLEDD FLYNYDDOL


Yn Seilo

Eglwys Unedig Llandudno

Dydd Mawrth, Mai 8fed, 2018

PWNC:

Cristnogaeth a Gwyddoniaeth



Darlithwyr/Siaradwyr

Yr Athro Emeritus Deri Tomos,
Llanllechid

Y Parchedig Ddr Noel A Davies,
O.B.E., Abertawe

Croeso i bawb